# NEWIDWCH EICH HINSAWDD

## MAE'R NEWID YN DECHRAU GYDA CHI!
## GWNEUD ADDEWID PERSONOL

Mae gennych chi'r pŵer i helpu'r blaned—gan ddechrau heddiw! Dewiswch un peth y gallwch chi ei newid i fyw mewn ffordd fwy ecogyfeillgar.

Meddyliwch am eich bywyd bob dydd: allech chi ddefnyddio llai o blastig, arbed mwy o ynni, neu gerdded yn lle gyrru neu brynu llai o ddillad newydd?



## FY ADDEWID

**New:** ______________________________

Fy ngweithred sy'n gyfeillgar i'r blaned:

AMGUEDDFA CYMRU



## PAM MAE'N BWYSIG:

## SUT BYDDWCH CHI'N CADW ATO?

Nid am wythnos yn unig, ond am flwyddyn gyfan! Sut fyddwch chi'n cadw golwg ar eich cynnydd? Allwch chi ysbrydoli pobl eraill i ymuno â chi?

Ticiwch bob dydd neu wythnos rydych chi'n llwyddo i gyflawni eich addewid!

## TRACIWR

| DYDDIAD | CAM GWEITHREDU | WEDI'I GWBLHAU? (✓/✗) |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# NEWIDWCH EICH HINSAWDD

## GWNEWCH IDDO DDIGWYDD!

## HER TÎM

Gweithiwch gyda'ch gilydd i ddewis un syniad cynaliadwy y gallwch ei brofi yn eich ysgol neu'ch cymuned. Gallai fod yn arbed ynni, lleihau gwastraff, neu amddiffyn natur. Gwnewch addewid, rhowch eich cynllun ar waith, a chadwch olwg ar yr effaith rydych chi'n ei chael.



## EIN HADDEWID

**Enw'r tîm:** ______________________

Ein syniad cynaliadwy:

AMGUEDDFA CYMRU



# PAM MAE'N BWYSIG

# SUT BYDDWCH CHI'N CADW ATO?

Sut fyddwch chi'n cadw golwg ar eich cynnydd? Allwch chi ysbrydoli pobl eraill i ymuno â chi?

Ticiwch bob dydd neu wythnos rydych chi'n llwyddo i gyflawni eich addewid!

## TRACIWR

| DYDDIAD | CAM GWEITHREDU | WEDI'I GWBLHAU? (✓/✗) |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# NEWIDWCH EICH HINSAWDD

## DEFNYDDIWCH EICH LLAIS
## CREU CELF, CREU NEWID!

Mae Celf yn ffordd bwerus o leisio barn a rhannu'r hyn sy'n bwysig i chi. Yn yr her yma, byddwch yn edrych ar gelf protest o Amgueddfa Cymru ac yn creu eich gwaith celf eich hun i ysbrydoli newid.



## BETH SY'N BWYSIG I CHI?

**Ysgrifennwch neu brasluniwch rywbeth sy'n bwysig iawn i chi (e.e. natur, tegwch, caredigrwydd)**

# CHWILIWCH AM GELF PROTEST



# BETH MAEN NHW'N EI RANNU?

Pa ddeunyddiau neu arddulliau maen nhw'n eu defnyddio?
Ysgrifennwch neu brasluniwch eich teimladau:

# CREU EICH GWAITH CELF EICH HUN



Gallwch greu unrhyw beth rydych chi'n ei ddymuno:

- Posteri protest
- Darnau gair llafar
- Ymgyrchoedd digidol
- Crefft ac ati
- Fideo

# EGLURWCH EICH NEGES

Sut mae eich gwaith celf yn dangos yr hyn sy'n bwysig i chi?
Sut gallai ysbrydoli pobl eraill i newid?

# SUT FYDDWCH CHI'N RHANNU EICH NEGES?

Meddyliwch am ffyrdd o rannu eich neges gyda'r gymuned leol neu Amgueddfa Cymru

# NEWIDWCH EICH HINSAWDD | DEFNYDDIWCH MINECRAFT I GREU EICH DYFODOL

Dychmygwch mai chi yw'r bos ar gyfer adeiladu ysgol newydd sbon—yn union fel Minecraft! Rydych chi'n cael dewis popeth: y waliau, y to, yr ynni, hyd yn oed y maes chwarae.

Pa ddeunyddiau fyddech chi'n eu defnyddio er mwyn helpu'r blaned? Fyddech chi'n defnyddio ynni'r haul, gwynt, neu rywbeth arall i bweru'ch ysgol? Defnyddiwch syniadau doeth o'r gorffennol a heddiw i ddylunio'r ysgol fwyaf anhygoel ac ecogyfeillgar erioed! Fel arall, gwnewch fodel neu defnyddiwch flociau adeiladu.



## CYN DECHRAU, COFIWCH WNEUD GWAITH YMCHWIL...

- Astudiwch y dystysgrif ynni ar gyfer eich ysgol. Pa mor effeithlon o ran ynni yw eich ysgol? Faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio? Sut mae hyn yn cymharu ag ysgolion eraill? Oes rhywle lle byddai modd arbed ynni? Beth sy'n cael ei wneud yn dda?
- Beth allwn ni ei ddysgu o'r gorffennol? Astudiwch yr adeiladau hanesyddol yn Sain Ffagan i weld a oes unrhyw ddeunyddiau neu arferion cynaliadwy yr hoffech eu cynnwys.
- Dysgwch am dechnoleg amgen yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen.

AMGUEDDFA CYMRU

# NEWIDWCH EICH HINSAWDD

## DEFNYDDIWCH MINECRAFT I GREU EICH DYFODOL



### PA SYNIADAU SYDD GENNYCH CHI AR GYFER EICH ECO-YSGOL?

### PA DDEUNYDDIAU CYNALIADWY FYDDWCH CHI'N EU DEFNYDDIO I'W HADEILADU?

AMGUEDDFA CYMRU

# SUT FYDD EICH YSGOL YN CAEL EI HEGNI?



Dewiswch eich ffynonellau ynni:

☐ Ynni olar

☐ Ynni gwynt

☐ Ynni dŵr

☐ Arall: ____________________

# TYNNWCH FRASLUN O'CH ECO-YSGOL.

Defnyddiwch y lle yma i fraslunio neu wneud labeli ar gyfer eich dyluniad.

# SUT MAE EICH YSGOL YN HELPU'R BLANED?



Esboniwch eich syniadau:

# SUT I DDEFNYDDIO



### LAWRLWYTHO MINECRAFT

Gall plant yng Nghymru lawrlwytho Minecraft Education Edition am ddim – ond bydd yn rhaid mewn gofnodi i'ch cyfrif Hwb. Wedi anghofio enw a chyfrinair eich cyfrif? Gofynnwch i'ch athro am help.

Sut i lawrlwytho Minecraft: Education Edition.
Fideo helpu https://youtu.be/aZqLSI7YZSE
Dolen https://education.minecraft.net



### CREU

Os taw dyma'r tro cynta i chi chwarae Minecraft, mae llawer o help yma, neu ar You-Tube. Learning-to-play-Minecraft-Education-Edition (Y Saesneg).

Gwnewch gynllun ar bapur gyntaf. Meddyliwch am faint a siâp yr adeilad.

# RHANNU EICH AMGUEDDFA MINECRAFT

Defnyddiwch feddalwedd ffilmio sgrîn am ddim, fel Active presenter 7, i ffilmio taith drwy'r amgueddfa. Mae sawl app am ddim all wneud hyn. Cofiwch ofyn caniatâd oedol yn cyn lawrlwytho unrhyw app neu feddalwedd.

# RHANNU GYDA NI AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Ychwanegwch ddisgrifiad byr o ba wrthrychau sydd yn eich ysgol a pam.



Amgueddfa Cymru

@museumwales

